

ELGC(5)-21-18 Papur 15 / Paper 15

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

28 Mehefin 2018

Annwyl Brif Weinidog,

Goblygiadau Brexit o ran cydraddoldeb a hawliau dynol

Yn dilyn fy llythyr ar y cyd â John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, ysgrifennaf i ofyn am eglurhad pellach ar un neu ddau o'r pwyntiau a godwyd.

Ers yr wythnos ddiwethaf, mae'r Senedd wedi cytuno ar destun terfynol Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Fe fyddwch yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU, yn ystod hynt y Bil, wedi gwrthod gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi a oedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cynnwys Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yng nghyfraith y DU. Fe fyddwch hefyd yn ymwybodol bod y Bil wedi'i ddiwygio i ddarparu gweithdrefn graffu well ar gyfer offerynnau statudol sy'n diwygio neu'n dirymu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan adran 2 (2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 i weithredu cyfraith yr UE. Fodd bynnag, nid yw'r weithdrefn well yn gymwys i offerynnau a wneir gan Weinidogion Cymru ac sy'n destun gwaith craffu yn y Cynulliad. At hynny, nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn yn ffurfiol ar y broses o ddiddymu'r Ddeddf Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ers 8 Mehefin 2018.




Yn sgil y datblygiadau hyn, byddwn yn croesawu ymateb wedi'i ddiweddarau gennych mewn perthynas â:

- ***Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE***: sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Hawliau Siarter yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru; a
- ***Di-atchweliad***: sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau nad yw hawliau a rhwymedigaethau presennol (yn enwedig safonau cydraddoldeb a hawliau dynol mewn cymhwysedd datganoledig) yn cael eu herydu neu eu dileu o ganlyniad i Brexit.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol a byddwn yn croesawu ymateb gennych chi o fewn yr amserlenni arferol.

Yn gywir,



David Rees AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

